

## BEYNON, ROSSER ('Asaph Glan Tâf'; 1811 - 1876), cerddor

**Enw:** Rosser Beynon  
**Ffugenw:** Asaph Glan Tâf  
**Dyddiad geni:** 1811  
**Dyddiad marw:** 1876  
**Rhiant:** Elizabeth Beynon  
**Rhiant:** John Beynon  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** cerddor  
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth; Perfformio  
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganed yng Nglyn Eithinog, Glyn Nedd, Morgannwg, mab John ac Elizabeth Beynon. Yn 1815 symudodd y tad a'r fam a saith o blant i fyw i Merthyr Tydfil. Cafodd Rosser ychydig addysg yn ysgol George Williams, ond aeth i weithio i'r gwaith haearn yn 8 oed, a dringodd i fod yn is-oruchwyliwr yno.

Dechreuodd ymddiddori mewn cerddoriaeth yn ieuanc, a thrwy lafurio yn galed i'w ddiwyllio ei hunan daeth yn gerddor da. Yn 1835 penodwyd ef yn arweinydd y canu yng nghapel Annibynwyr Soar, Merthyr. Casglodd y bobl ieuainc at ei gilydd, a sefydlodd ddosbarth i ddysgu cerddoriaeth, a darnau cerddorol a thonau newydd. Ystyrid ef yn arweinydd canu rhagorol, a llafuriodd yn ddyfal i wella a choethi canu cynulleidfaol. Yn 1836 ysgrifennodd 'Sylwadau Perioriaethol' i'r *Diwygiwr*, ac wedi hynny amryw ysgrifau eraill ar gerddoriaeth. Efe hefyd oedd golygydd y tonau yn y cylchgrawn. Yn 1845 dug allan Rhan I casgliad o donau ac anthemau, dan yr enw *Telyn Seion*, a'r holl rannau yn un llyfr yn 1848. Ceir yn y casgliad 20 o donau o'i waith, ac ynddo am y tro cyntaf yr ymddangosodd y tonau 'Eifionydd' a 'Groeswen' o waith **John Ambrose Lloyd**. Dyma'r casgliad cyntaf y ceir rhifnodau amser y metronom wrth y gerddoriaeth. Perfformiodd amryw o weithiau cyflawn gyda'i gôr.

Yr oedd yn feirniad craff a chymeradwy, a bu'n gwasanaethu yn eisteddfodau De a Gogledd Cymru. Bu farw 3 Ionawr 1876, a chladdwyd ef ym mynwent gyhoeddus Cefn, Merthyr Tydfil.

### Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

### Ffynonellau

*Y Diwygiwr*, 1850

*Y Cerddor*, Hydref 1891

*Y Geninen*, 1887, 63

Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908)

### Darllen Pellach

Thomas Williams, *Pryddest goffadwriaethol i'r diweddar Rosser Beynon, (Asaph Glan Taf) a'r Parch. D. T. Williams (Tydfylyn)... buddugol yn Eisteddfod Cymrodorion dirwestol Merthyr, Nadolig, 1876* (Merthyr Tydfil 1877)

T. Morgan, *Enwogion Cymreig 1700-1900* (1907), tt.22-23

Erthygl Wicipedia: Rosser Beynon (Asaph Glan Taf)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734376

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

Erannu

Arddull APA

x

Griffith, R. D., (1953). BEYNON, ROSSER ('Asaph Glan Tâf'; 1811 - 1876), cerddor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-BEYN-ROS-1811>

Preifatrwydd a Chwciis  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Yn ddiwedd  
Llywodraeth Cymru  
Supported by  
Welsh Government